Ymgynghoriad y Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

Adroddiad Adborth

Medi 2022

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

CANLYNIADAU PENNAWD

35

Ymateb wedi derbyn

(Ar 23 Medi)

74%

Cytuno neu **gytuno'n gryf** â'r amcan Hybu'r Economi

(8% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

74%

Cytuno neu **gytuno'n gryf** â'r amcan Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach

(9% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

69%

Cytuno neu **gytuno'n gryf** â'r amcan Darparu'r Cychwyn Gorau mewn Bywyd

(6% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

66%

Cytuno neu **gytuno'n gryf** â'r amcan Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n dda â'i gilydd

(3% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

29

Sylwad wedi derbyn mewn perthynas â'r effaith ar y Gymraeg. Y brif thema oedd yr angen am **fwy o bwyslais ar hybu'r Gymraeg**

Themâu allweddol o'r sylwadau ysgrifenedig:

- CEFNOGAETH I FUSNESAU, BUSNESAU BACH A CHANOLIG A CHYNLLUNIAU NEWYDD
- CYSYLLTIAD DIGIDOL I BAWB, NID DIM OND CANRAN
- EFFAITH AMGYLCHEDDOL O DDATBLYGIAD A THWF ECONOMAIDD
- CYFLEUSTERAU HAMDDEN A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
- CYFLEOEDD TEITHIO EFFEITHIOL YN ENWEDIG CERDDED A BEICIO
- HERIAU SY'N WYNEBU DARPARIAETH GOFAL CYMDEITHASOL
- AMDDIFADEDD GWLEDIG A GOFAL PLANT A ARIANWYD
- CYFLEOEDD DYSGU I BOBL HŶN
- CYSYLLTU CYMUNEDAU TRWY LLWYBRAU TEITHIO EFFEITHIOL
- GWELLA CLUDIANT CYHOEDDUS A CHOSTAU UCHEL

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24ain Awst a 30ain Medi 2022

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein drwy wefan y Cyngor ac wedi'i hysbysebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Derbyniwyd cyfanswm o 35 ymateb

Mae'r canlyniadau llawn a'r wybodaeth monitro cydraddoldeb i'w gweld ar y tudalennau canlynol

Cefndir

Rhwng 24ain Awst a 30ain Medi 2022, ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion ar ei Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27.

Yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai, roedd angen Strategaeth Gorfforaethol newydd i osod allan blaenoriaethau'r Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor a elwir yn Amcanion Llesiant Corfforaethol, ynghyd â'i uchelgeisiau a'r camau i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn llywio popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud ac mae'n seiliedig ar adolygiad eang o dystiolaeth ac asesiadau o anghenion. Gofynnwyd am farn preswylwyr er mwyn helpu i arwain cyfleoedd yn y dyfodol i wella canlyniadau i holl drigolion a chymunedau Ceredigion.

Sicrhawyd bod yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Cyngor ac fe'i hysbysebwyd trwy gyfryngau cymdeithasol. Roedd copïau printiedig a fersiynau hawdd eu darllen ar gael ar gais.

Cyfradd Ymateb

Ar 23ain Medi, roedd cyfanswm o 35 o ymatebion i'r Ymgynghoriad a 145 o sylwadau ysgrifenedig. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad ar Strategaethau a Pholisïau'r Cyngor yn tueddu i fod yn llai ond yn fwy manwl. Ar gyfartaledd cymerodd ymatebwyr 14 munud 30 eiliad i gwblhau'r arolwg. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau.

Prif Ddarganfyddiadau

Q1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dyheadau a'r camau sydd wedi'u nodi o dan yr amcan "Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth"?

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (74%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r uchelgeisiau a'r camau ar gyfer yr amcan Hybu'r Economi. Roedd yna hefyd 17% neu 6 ymateb arall nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 9% neu 3 o ymatebwyr pellach naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r amcan, er bod y rhesymau am hyn yn amrywiol iawn – roedd un oherwydd yr angen am fwy o dai fforddiadwy, un arall oherwydd yr angen i gefnogi'r diwydiant twristiaeth a theimlai gweddill yr ymatebwr yn gryf y dylai diogelu'r amgylchedd naturiol fod yn nodwedd amlwg o'r amcan Hybu'r Economi.

Q1. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dyheadau a'r camau sydd wedi'u nodi o dan yr amcan "Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth"?



Q2: A oes unrhyw fylchau neu a allwch chi awgrymu unrhyw welliannau?

Cyflwynwyd amrywiaeth o syniadau ar sut i gryfhau'r amcan hwn. Y mwyaf cyffredin o'r rhain oedd cefnogaeth i fusnesau lleol a bach. Er bod hyn yn rhan o'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft, cafwyd wyth sylw yn amlygu ei phwysigrwydd. Awgrymodd rhai ardrethi busnes is a chyfeiriodd rhai at gefnogi'r diwydiant twristiaeth yn benodol drwy leihau taliadau parcio a rhoi hwb mawr i drefi marchnad. Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd helpu busnesau newydd yn sgil y pandemig COVID-19 a oedd wedi taro rhai busnesau lleol yn galed, tra bod eraill yn teimlo y dylid cefnogi a hyrwyddo Mentrau Bach a Chanolig gan mai nhw sy'n helpu rhoi naws a nodwedd unigryw i'r Sir a'i threfi.

Gwelliannau eraill a nodwyd oedd bod yr amgylchedd yn rhan o'r amcan, h.y. i fusnesau a datblygwyr ystyried yr effaith ar yr amgylchedd naturiol a blaenoriaethu nodau carbon isel a chynaliadwyedd. Roedd un sylw mewn perthynas â'r ymrwymiadau i wella cysylltedd digidol yn y Sir, a oedd yn pwysleisio y dylai sicrhau band eang teilwng fod yn berthnasol i bob cartref a busnes a pheidio â bod yn fodlon â chyfran o'r eiddo sy'n cyrraedd y safon hon. Roeddent yn tynnu ar eu profiad eu hunain yn ceisio rhedeg busnes ond yn ei chael yn anodd cysylltu. Dangosir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
"Dylai busnesau bach a chanolig gael eu cefnogi a'u hyrwyddo – maen nhw'n rhoi naws a nodwedd unigryw Ceredigion."	"Cymorth i gwmnïau sy'n cychwyn yn gynnar. Cafodd fy un i ei ddirywio oherwydd covid ac nid wyf wedi gallu dechrau eto oherwydd diffyg cymorth ariannol i ddechrau a rhedeg eto."
"Sylfaen ar nodau carbon isel a chynaliadwyedd – rhowch gydlyniant cymunedau lleol yn gyntaf."	"Band llydan teilwng i BAWB!!! Ddim yn ganran. Rydym yn byw 150 llath o gabinet ond ni allwn gysylltu gan nad oes digon o bobl yn yr ardal. Byddai'n costio cannoedd o bunnoedd i'w wneud yn breifat!! Ac eto rydyn ni'n rhedeg busnes bach ac mae angen rhyngrwyd teilwng arnom."

Q3: A ydych chi'n anghytuno â rhywbeth? Os ydych chi'n anghytuno â rhywbeth, esboniwch pam.

Roedd tri ymatebydd a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r uchelgeisiau a'r camau ar gyfer yr amcan hwn. O'r tri hyn, darparwyd rhesymau gwahanol iawn pam eu bod yn anghytuno a'r hyn y dylid ei ddiwygio yn y Strategaeth Gorfforaethol ddrafft. Tynnodd un sylw at yr angen dybryd am dai

fforddiadwy i bobl sy'n gweithio, a chanolbwyntiodd un arall ar dwristiaeth ac effaith y rheol 182 diwrnod ar gyfer cymhwyso ardrethi busnes, gan ofni y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y diwydiant a busnesau yn y sector hwn. Canolbwyntiodd y trydydd ymatebwr ar effaith amgylcheddol hybu'r economi ac nad yw'n nodwedd ddigon cryf yn yr Amcan hwn. Eu barn yw y dylai'r amgylchedd naturiol chwarae rhan llawer mwy yn yr amcan hwn a bod datblygwyr a busnesau yn ystyried yr effeithiau ar ein hamgylchedd. Dangosir y safbwyntiau hyn yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
"Tai fforddiadwy i bobl sy'n gweithio, gyda'r adran tai cefnogol sy'n gwrando ac yn cynnal ymweliadau cartref neu wyneb yn wyneb."	"Unwaith eto i bob golwg nid yw'r amgylchedd naturiol o unrhyw bwys. Symudwch ef i sefyllfa a fydd yn gorfodi entrepreneuriaid ac economegwyr i ystyried yr effeithiau ar ein hamgylchedd. Pob un ohonynt. Ni ddylid caniatáu i lygredigaeth a datblygiad redeg yn arw dros yr amgylchedd."
"Mae'r rheol 182 diwrnod yn chwerthinllyd gan nad oes llawer o bobl eisiau teithio yn y gaeaf ar gyfer gwyliau. Gyda chost tanwydd yn cynyddu ni allwn godi mwy gan y bydd hyn allan o gyllideb pawb."	

Q4: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dyheadau a'r camau sydd wedi'u nodi o dan yr amcan "Creu cymunedau gofalgar ac iach"?

Derbyniodd yr amcan Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach y gefnogaeth gryfaf gan ymatebwyr gyda 43% yn cytuno'n gryf a 31% arall yn cytuno â'r uchelgeisiau a'r camau i gyflawni'r amcan, felly 74% yn gefnogol yn gyffredinol. Fel yr amcan Hybu'r economi roedd 17% neu 6 ymateb nad oedd yn gefnogol nac yn erbyn. Fodd bynnag, cafwyd 3 ymateb hefyd a oedd yn anghytuno'n gryf â'r amcan hwn, gan nodi diffyg cyfleusterau i bobl iau, yr angen i greu cyfleoedd ym maes cynhyrchu bwyd (nid cig a llaeth), ansawdd dŵr ac ynni gwyrdd i bobl iau, a'r lleoedd gwag yn y gweithlu cyflogedig gofalwyr fel y rhesymau am hyn.



Q5: A oes unrhyw fylchau neu a allwch chi awgrymu unrhyw welliannau?

Mynegwyd amrywiaeth o wahanol safbwyntiau ynghylch sut y gellid gwella'r amcan hwn. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau'n gryf dros well darpariaeth o lwybrau teithio llesol a seilwaith ledled y Sir i helpu i greu cymunedau iach, tra bod eraill yn tynnu sylw at yr heriau o ran darparu gofal cymdeithasol, megis nifer y lleoedd gwag yn y sector yn lleol ac yn genedlaethol. Amlygodd un yr angen am fwy o gefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia, tra bod un arall yn canolbwyntio ar ddemocratiaeth leol ac awgrymodd fod angen mwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. (Sylwer bod cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol yn rhan allweddol o uchelgeisiau'r Cyngor yn y Strategaeth ddrafft ar dudalen 33). Rhestrir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl trosodd.

Sylwadau Sampl	
"Mae cymunedau iach yn cyfeirio at bob oedran ond eto mae darpariaeth chwaraeon ac mae cyfleoedd i bawb yn cael eu tynnu oddi wrth ein cenhedlaeth iau, er enghraifft cae 3G ar gyfer pêl-droed yn hytrach nag aml-wyneb. Mae arwyneb aml yn gynhwysol ac yn cefnogi amrywiaeth o chwaraeon, pêl-droed yn unig yw 3G felly nid yw'n hyrwyddo cymunedau iach ond chwaraewyr pêl-droed iach yn unig."	"Rhowch gymunedau a lles trigolion yn gyntaf – dylai trigolion allu cerdded a beicio'n uniongyrchol o A i B – nid yw'n bosibl ar hyn o bryd gan nad yw pentrefi a threfi yn gydgysylltiedig. Buddsoddwch mewn swydd a rhowch gynllun beicio'r Iseldiroedd ar waith i Geredigion – gwnewch hi'n gyrchfan gwyrdd a chynaliadwy – i'w gwneud yn gymuned ofalgar ac iach".
	"Mae cyn lleied o gymorth ar gael i'r henoed y rhai sy'n byw gyda dementia – a beth sydd ddim yn gydgysylltiedig ac yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol."

Q6: A ydych chi'n anghytuno â rhywbeth? Os ydych chi'n anghytuno â rhywbeth, esboniwch pam.

Roedd tri ymatebwr yn anghytuno'n gryf â'r amcan hwn, ac fel yn yr amcan Hybu'r Economi blaenorol, darparwyd tri rheswm gwahanol iawn. Roedd y cyntaf yn ymwneud â diffyg cyfleusterau hamdden yn enwedig ar gyfer pobl iau, gan egluro eu bod yn teimlo bod cyfleusterau chwaraeon yn cael eu lleihau mewn gwirionedd ac y dylai cyfleusterau fod ar gael ar gyfer *pob math* o chwaraeon a gweithgareddau. Roedd yr ail yn tynnu sylw at werth cymunedau bach ond agos a'r cyfle i bobl iau ddechrau gyrfaoedd mewn cynhyrchiant bwyd (ond nid cig a llaeth), ansawdd dŵr a chynhyrchu ynni gwyrdd. Awgrymwyd y dylai hyn gael lle amlwg yn addysg disgyblion Ceredigion.

Tynnodd y trydydd ymatebwr sylw at un o'r heriau allweddol o ran darparu gofal cymdeithasol – nifer y swyddi gwag yn y sector a chwestiynodd ymagwedd y Cyngor, gan ddadlau bod edrych at deuluoedd a gwirfoddolwyr i ddarparu gofal yn ddull diffygiol wrth ystyried bod llawer o leoedd gwag. Cododd ymatebydd arall a oedd yn cytuno'n gyffredinol â'r uchelgeisiau a'r camau ar gyfer yr amcan hwn y mater o ddigartrefedd ac mae angen gwneud hynny i'w helpu. Amlygwyd y gallai polisïau'r Cyngor fod y lle i ddechrau i'w helpu i fod yn gymwys ar gyfer tai. Dangosir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
"Mae cymunedau iach yn cyfeirio at bob oedran ond eto mae darpariaeth chwaraeon ac mae cyfleoedd i bawb yn cael eu tynnu oddi wrth ein cenhedlaeth iau, er enghraifft cae 3G ar gyfer pêl-droed yn hytrach nag aml-wyneb. Mae arwyneb aml yn gynhwysol ac yn cefnogi amrywiaeth o chwaraeon, pêl-droed yn unig yw 3G felly nid yw'n hyrwyddo cymunedau iach ond chwaraewyr pêl-droed iach yn unig."	"Ewch yn ôl i ysgolion bach, lleol lle gellir annog gwerth cymunedau bach. Dylai gyrfaoedd mewn cynhyrchu bwyd (nid cig a llaeth), ansawdd dŵr a chynhyrchu ynni gwyrdd fod yn amlwg yn addysg ein disgyblion ieuengaf".
"Mae edrych tuag at deulu a gwirfoddolwyr i ddarparu gofal pan fo cymaint o swyddi gwag yn y gweithlu cyflogedig i ofalwyr yn amlygu ideoleg ddiffygiol. Mae hyn yn gadael pobl a theuluoedd eisoes yn agored i niwed mewn amgylchiadau peryglus a niweidiol. Mae'n mynd yn erbyn gofal iechyd darbodus."	"Byddwn yn herio ein bod yn sôn am greu cymunedau gofalgar ac iach ac eto mae gennym ni gymaint o bobl ddigartref ar y prom nad ydyn nhw'n cael cymorth oherwydd bod polisïau [cyngor] yn rhoi gormod o alw arnyn nhw dim ond i fod yn gymwys am dai. Maen nhw'n oedolion sy'n agored i niwed ac mewn perygl na allant ymdopi â'r pethau hyn ac y mae angen eu lleddfu."

Q7. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dyheadau a'r camau sydd wedi'u nodi o dan yr amcan "Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu"?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (24 o ymatebwyr neu 69%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r amcan llesiant 'Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu' a'r camau i'w gyflawni. Fodd bynnag, nid oedd dros chwarter yr ymatebwyr (9 o ymatebwyr neu 26%) yn cytuno nac yn anghytuno â'r Amcan Llesiant Corfforaethol. Wrth ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, amlygwyd nad oedd gan hanner y rhai a ddewisodd "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" farn ar y mater (h.y. "ddim yn gwybod"), tra bod gan yr hanner arall farn niwtral (h.y., roedd yr atebydd rhwng cytuno ac anghytuno). Roedd canran fach iawn o ymatebwyr (2 ymatebwr neu 6%) yn anghytuno, er nad oedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r uchelgeisiau a'r camau a nodwyd yn y trydydd Amcan Llesiant Corfforaethol.



Q8. A oes unrhyw fylchau neu a allwch chi awgrymu unrhyw welliannau?

Amlygodd un ar bymtheg o ymatebwyr (46%) fylchau a/neu awgrymu gwelliannau i'r trydydd Amcan Llesiant Corfforaethol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn amrywiol, heb unrhyw dueddiadau clir.

Roedd awgrymiadau ar welliannau a bylchau'n amrywio o ddarparu cyfleoedd dysgu i bobl hŷn nad ydynt wedi'u teilwra ar gyfer cyflogaeth, i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael tri phryd iach y dydd. Defnyddiodd nifer o ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn cychwynnol hwn fel cyfle i amodi eu penderfyniad, er enghraifft, drwy fynegi eu cefnogaeth i'r uchelgais i sicrhau seilwaith ysgol bwrpasol a chadarn. Ceir detholiad o'r sylwadau yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
"Rwy'n cytuno'n gryf â'r ymdrechion i gael cyllid ar gyfer adeilad newydd yn Ysgol Penglais. Yn fy marn i mae hyn yn hanfodol i ddisgyblion y dyfodol gyflawni eu potensial addysgol. Heb os nac oni bai, mae Penglais yn adeilad sy'n heneiddio ac sydd angen adeilad newydd yn ei le i gadw i fyny ag addysg fodern. Mae'r ysgol yn gwneud ei gorau glas i ddarparu cyfleusterau i'r holl ddisgyblion gyflawni eu hastudiaethau ond mae'r eiddo'n dod yn anaddas i'r pwrpas."	"Sicrhau bod pob oedran yn cael darpariaeth a chyfleoedd. Hyrwyddo iechyd a lles ar draws y Sir, yn hytrach na lleihau gwasanaethau. Gallai hybiau llesiant gynnig clybiau penodol e.e. pêl-rwyd mewn Sir lle nad oes ond 1 clwb iau."
"Rwy'n gwybod bod Ceredigion yn cefnogi addysg yn dda iawn. Parhewch i wneud hynny os gwelwch yn dda."	"Beth am oedolion sydd eisiau dysgu Cymraeg? Os ydych chi eisiau mwy o siaradwyr Cymraeg mae angen darparu dosbarthiadau AM DDIM, neu sefydlu cynlluniau mewn canolfannau cymunedol / tafarndai / neu gaffis ac ati i annog rhyngweithio cymdeithasol ochr yn ochr â sgwrs yn Gymraeg gyda siaradwyr brodorol."

Q9: A ydych chi'n anghytuno â rhywbeth? Os ydych chi'n anghytuno â rhywbeth, esboniwch pam.

Yn gyffredinol, rhoddodd tri o gyfranogwyr yr arolwg ateb i gwestiwn naw: os oeddent yn anghytuno â'r camau a'r uchelgeisiau a nodir yn yr Amcan Llesiant Corfforaethol - Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu. Roedd un ymatebwr yn cytuno â'r Amcan Llesiant Corfforaethol ond yn teimlo nad oedd modd cyflawni'r uchelgeisiau a'r camau yn ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â deall amddifadedd gwledig a gofal plant wedi'i ariannu. Roedd y ddau ymatebydd arall yn anghytuno ag uchelgeisiau a chamau penodol, ond fe wnaethant hynny am resymau gwahanol. Roedd un ymatebwr yn pryderu am y pwyslais a roddir ar y Gymraeg, a oedd, yn ei farn ef, yn atal athrawon ysgol sydd ddim yn ddwyieithog rhag ymgeisio am swyddi addysgu, tra bod yr ymatebwr arall yn mynegi pryderon ynghylch cyflawni'r targed allyriadau sero net. Amlinellir detholiad o sylwadau yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
"Rwy'n cytuno ag ef ond dydw i ddim yn siŵr ein bod ni'n ei wneud yn dda yn ymarferol. Er enghraifft...Rwy'n adnabod pobl sydd wedi gadael y brifysgol ac sy'n methu dod o hyd i waith ond mae eu partner yn gweithio. Maen nhw'n brysur yn chwilio am swydd ond mae ganddyn nhw un neu fwy o blant i ofalu amdanyn nhw. Oherwydd nad ydynt yn gweithio, nid ydynt yn gymwys i gael gofal plant addysgol am ddim. Maent yn cael trafferth cydbwyso magu ac addysgu eu plentyn tra'n ceisio dod o hyd i waith sy'n her enfawr ac yn y bôn yn cael eu cosbi amdano. Yn y cyfamser mae pobl sy'n gyfoethog iawn yn elwa ar y cynllun gofal plant am ddim pan fyddent yn gallu ei fforddio heb unrhyw drafferth na newid i ansawdd eu bywyd."	"Fy ail enghraifft yw gweld yr ysgol gynradd leol lle rydw i'n ystyried symud ... mae'n amlwg nad yw ysgolion y pentrefi gwledig wedi cael gwaith arnynt (ar wahân i gabanau ychwanegol i ddarparu mwy o ddosbarthiadau) ers degawdau. Yn y cyfamser, os ydych chi'n byw mewn tref fel Aberystwyth, rydych chi wedi'ch sbwylio gan ddewis ar ysgolion gwych ... dwi'n cytuno gyda'r teimlad o hyn ond yn teimlo'n ymarferol nid yw'r nod hwn erioed wedi rhedeg yn wir fel pe baech yn byw yng nghefn gwlad neu dim ond un rhiant (neu waeth rhiant sengl) yn methu dod o hyd i waith, nid yw eich plentyn yn mynd i gael y dechrau gorau mewn bywyd gan yr ALl hwn [Awdurdod Lleol]."
"Mae sero net yn anghyraeddadwy a bydd yn costio cannoedd o filiynau a fydd yn cael ei weld yn wastraff arian gan drigolion Ceredigion. Mae angen craffu ymhellach ar y cwricwlwm newydd, gan y byddai gwersi ACRh [Addysg Perthynas a Rhyw] yn y modd a gynigir ar gyfer plant oed cynradd yn amhriodol."	"Peidiwch â mynnu bod gan athrawon y Gymraeg nad ydych chi'n cael gradd uchel o raddedigion oherwydd maen nhw'n cael eu digalonni gan hyn."

Q10: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dyheadau a'r camau sydd wedi'u nodi o dan yr amcan "Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd"?

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n cytuno (31%) neu'n cytuno'n gryf (34%) â'r uchelgeisiau a'r camau ar gyfer yr Amcan Llesiant Corfforaethol o "Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd", sef cyfanswm o 65% o'r holl ymatebwyr. Dewisodd ychydig dros 30% (31%) o ymatebwyr 'Niwtral' wrth ateb y cwestiwn hwn. Roedd 0% o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r uchelgeisiau a'r camau ar gyfer yr Amcan Llesiant Corfforaethol hwn.



Q11: A oes unrhyw fylchau neu a allwch chi awgrymu unrhyw welliannau?

Cafwyd 17 ateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn, sef ychydig yn llai na hanner yr holl ymatebwyr (48%). Roedd mwyafrif y sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r angen i wella llwybrau beicio a chysylltu cymunedau Ceredigion yn well. Mae'n amlwg nad yw'r ymatebwyr hyn yn meddwl bod digon o

lwybrau beicio digonol, diogel ac addas o amgylch y Sir. Yn ogystal, nodwyd bod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n golygu bod pobl yn gorfod defnyddio eu car i deithio. Nodwyd gwella cysylltiadau cerdded a beicio rhwng cymunedau fel yr ateb i'r mater hwn.

Sylwadau Sampl	
"Mae gwir angen i chi gysylltu ein cymunedau ynysig yn well. Mae rhywfaint o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael, ond a fyddech cystal â dechrau ystyried cael lonydd beicio neu lonydd/llwybrau beicio dynodedig fel y gallwn fynd o A i B yn ddiogel ac mewn modd gwyrdd a chynaliadwy gan ddefnyddio beiciau."	"Cysylltiedig yn gynaliadwy. Gyda phwyslais ar drafnidiaeth werdd. Mae diffyg llwybrau beicio diogel rhwng cymunedau Ceredigion."
"Mae angen llwybrau beicio priodol ar y ffordd neu ffyrdd gwyrdd yn cysylltu pob tref a phentref."	"Mae angen gosod llwybrau cerdded a beicio ar hyd POB ffordd ar Geredigion i sicrhau bod pobl yn gallu cerdded neu feicio'n ddiogel lle bynnag y mae angen iddyn nhw fynd."
"Gwnewch swydd cynllunio i gael gweledigaeth o lwybrau beicio arddull yr Iseldiroedd yn cysylltu Ceredigion - sut y gallai seilwaith fod pe bai safonau priodol yn cael eu gosod i uno cymunedau. Anelwch at Geredigion gwyrdd a chysylltiedig. Gwneud pob pentref a thref yn barthau 20mya a chael llwybrau beicio uniongyrchol digonol fel arddull yr Iseldiroedd rhwng pob tref a phentref. Gwneud Ceredigion yn sir gynaliadwy werdd. Cael darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gweithio - 6am i 12pm, fforddiadwy a dibynadwy..."	

Q12: A ydych chi'n anghytuno â rhywbeth? Os ydych chi'n anghytuno â rhywbeth, esboniwch pam.

Roedd yr ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn yn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch trafnidiaeth gynaliadwy a diogelu'r amgylchedd. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i bwysleisio pwysigrwydd cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, yn enwedig cerdded a beicio, a chreu llwybrau teithio llesol i gysylltu trefi a phentrefi'r Sir. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cwestiynu'r dull o ddiogelu'r amgylchedd, gan egluro y byddai'r gost o sicrhau Cyngor sero net yn afresymol ac un arall yn nodi bod yr argyfwng hinsawdd ddim yn bodoli. Yn lle hynny, esboniwyd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar gefnogi ac ymgysylltu â ffermwyr lleol i gynhyrchu cynnyrch lleol o ansawdd uchel.

Cysylltodd ymatebydd arall uchelgais datgarboneiddio'r Cyngor â'r Gorchmynion Traffig Arbrofol mewn pedair o Drefi Ceredigion sy'n cadw rhai elfennau parcio a llif traffig a osodwyd dros dro mewn ymateb i bandemig COVID-19. Eu barn yw bod y trefniadau hyn wedi cynyddu tagfeydd traffig ac felly wedi arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon. Dangosir sampl o rai o'r sylwadau hyn isod.

Sylwadau Sampl	
"Mae sero net yn anghyraeddadwy a bydd yn costio cannoedd o filiynau a fydd yn cael ei weld yn wastraff arian gan drigolion Ceredigion. Mae llifogydd Dyffryn Teifi o ganlyniad i reolaeth wael o dir a choedwigaeth."	"Byddwch yn fwy penodol. Cynigiwch fentrau gwyrdd cynaliadwy a gefnogir mewn gwirionedd gan adran gynllunio nad yw'n sownd yn y gorffennol."
"Nid oes Argyfwng Hinsawdd. Mae angen i'r Cyngor roi'r gorau i wario arian ar y nonsens hwn. Canolbwyntio ar leihau llygredd, cefnogi ein ffermwyr yn eu rôl, cynhyrchu bwyd o ansawdd rhagorol. Peidiwch â chael eich ochr-olrhain gan grwpiau pwyso lleiafrifol. Yn hollbwysig, ymgysylltwch â ffermwyr i gynnal ein sir hardd."	"Rwy'n meddwl bod angen i CSC feddwl eto am eu cynllun allyriadau carbon is. Mae cau a newidiadau ffyrdd yr ETRO a'r parth diogel wedi cynyddu'r problemau i ardaloedd eraill. Ciwiau traffig yn gwaethygu pethau. Yna cawsom y Rali yng nghanol y dref? Mae'r newidiadau a'r toriadau i gasglu sbwriel yn enw lleihau carbon wedi cael effeithiau niweidiol iawn ar ganol y dref a'r stadau tai gyda sbwriel a llygod mawr yn cynyddu."

Q13: Hoffem wybod eich barn am effeithiau'r Strategaeth Gorfforaethol arfaethedig ar y Gymraeg ac yn benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol?

Derbyniwyd 29 o sylwadau ar yr effaith y byddai'r Strategaeth Gorfforaethol yn ei chael ar yr iaith Gymraeg. Y sylw mwyaf cyffredin oedd bod angen cryfhau'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn sylweddol i adlewyrchu ei phwysigrwydd i'r Sir, ei chymunedau ac fel blaenoriaeth i'r Cyngor. Er enghraifft, mynegwyd nifer o safbwyntiau cryf y dylid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg dros y defnydd o'r Saesneg ac y dylid darparu mwy o gyfleoedd i bobl ei dysgu a'i defnyddio mewn bywyd bob dydd. Codwyd y ddarpariaeth o wersi Cymraeg nid yn unig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ond hefyd yn yr ymatebion i'r amcan Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd fel un ffordd o hybu'r Gymraeg, annog pobl i ddysgu neu ddatblygu eu Cymraeg ymhellach ac wrth greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob lleoliad. Dangosir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
"Y Gymraeg yw ein hiaith gyntaf ac mae angen rhoi blaenoriaeth iddi."	"Rhowch y Gymraeg yn gyntaf (dwi'n uniaith Saesneg) – arwyddion stryd ar gyfer e.e. dylai fod yn Gymraeg yn unig."
"Cyrsiau am ddim i staff ysgol Ceredigion ar gyfer Cymraeg ac iaith arwyddion."	"Os oeddet ti'n cael mwy o wersi Cymraeg efallai bydd mwy o bobl yn ei defnyddio."
"Dw i'n cytuno ei bod hi'n beth da hybu delfrydau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, trwy berswâd yn hytrach na thrwy gyfraith o ddewis! Ei gwneud yn haws i bobl ddeall y diwylliant lleol ac addasu i'w bywyd newydd yng Ngheredigion, tra'n cydnabod hefyd ein bod yn rhan o'r DU, a bod gan bawb yr hawl i gael eu deall a'u gwerthfawrogi, beth bynnag fo'u treftadaeth a'u hiaith frodorol."	"Ni chrybwyllwyd hyn o gwbl. Nid oedd o gwbl yn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Strategaeth Gorfforaethol yn Saesneg ac nid yn ddwyieithog. Mae hynny wedi ffafrio Saesneg dros y Gymraeg. Rwy'n ddysgwr Cymraeg ond nid tan i mi ddechrau gweithio yma y cefais fynediad i wersi Cymraeg am ddim gan nad oeddwn yn gallu eu fforddio. Ddylai'r Gymraeg ddim bod yn gyfartal â'r Saesneg."

Q14: Esboniwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y Strategaeth Gorfforaethol gael ei llunio neu ei haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Yn ogystal, sut ydych chi'n credu y gall y Strategaeth Gorfforaethol gael ei llunio neu ei haddasu er mwyn peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Gofynnodd y cwestiwn dilynol pa newidiadau y gellid eu gwneud i gynyddu'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac osgoi effeithiau negyddol. Roedd dwy brif thema mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn gyntaf, cafwyd rhai sylwadau yn adlewyrchu'r teimlad a fynegwyd yn C13, h.y. yn dweud yn syml y dylid blaenoriaethu'r Gymraeg dros y Saesneg. Yn ail, aeth rhai ymatebion gam ymhellach gan fynegi syniadau ar sut i hybu'r Gymraeg, megis drwy ddarparu gwersi ychwanegol i ddysgwyr. Amlygodd un ymateb yr angen i ganolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth, tai a lefelau cyflog fel un ffordd o annog pobl leol i aros a byw yn eu hardal leol a thrwy hynny gadw eu sgiliau iaith yn eu cymuned. Dangosir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
"Dylai pob ysgol yng Ngheredigion fod yn Gymraeg yn gyntaf"	"Cymraeg yn gyntaf"
"Sicrhau bod cyflogaeth, tai a chyfleoedd o safon dda gyda chyfraddau cyflog derbyniol i annog pobl leol i aros yn lleol"	"Dylai'r Gymraeg gael ei blaenoriaethu gan ein bod i fod i anelu at Gymru gyfan gwbl Gymraeg. Dylai addysg Gymraeg am ddim fod ar gael a'i hannog trwy amrywiol gynlluniau busnes neu dim ond i'r cyhoedd fel nad yw'r iaith yn marw."

Q15: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r Strategaeth Gorfforaethol arfaethedig?

Roedd y cwestiwn hwn yn benagored ac yn rhoi cyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion neu syniadau na chafodd sylw yng ngweddill yr arolwg. Manteisiodd pymtheg o ymatebwyr ar y cyfle naill ai i godi materion pellach neu i bwysleisio pwyntiau a wnaed eisoes yn y cwestiynau blaenorol. Soniwyd yn benodol am yr angen i gynnwys mudiadau gwirfoddol a rôl gwirfoddoli yn y Sir, gan egluro bod eu rôl yn hanfodol i gefnogi pobl mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft, mewn hyfforddiant a swyddi, mewn addysg ac mewn mentrau iechyd.

Cafwyd rhai sylwadau pellach ynglŷn â thrafnidiaeth yn y Sir, gan amlygu cost ac amlder gwasanaethau bws, yr angen am seilwaith beicio a gostyngiadau i derfynau cyflymder trwy drefi a phentrefi'r Sir. Pwysleisiwyd materion amgylcheddol ymhellach hefyd, ynghyd â phwysigrwydd datblygu'r economi leol, gwella addysg a threchu tlodi. O bwys, oedd pwysigrwydd cyfleu bod Ceredigion yn 'agored i fusnes' a chreu naratif cadarnhaol o amgylch yr economi i helpu i ddenu entrepreneuriaid, busnesau a swyddi. Yn olaf, cwestiynodd rhai ymatebwyr a fyddai'r Cyngor mewn gwirionedd yn gallu cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Ceir sampl o'r sylwadau hyn yn y tabl isod.

Sylwadau Sampl	
“Rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi sgimio’r peth yn hytrach na darllen yn fanwl, ond ni chefais unrhyw sôn penodol am fudiadau gwirfoddol/gwirfoddoli. Mae hyn yn hollbwysig, yn enwedig yn yr amgylchiadau presennol, ac yn berthnasol i fwy nag un o'r amcanion. Gall helpu pobl i gael hyfforddiant ar gyfer swyddi/gyrfaoedd; gall chwarae rhan mewn addysg/chwarae; gall gefnogi mentrau iechyd - gallwn fynd ymlaen.”	“Mae bysus yn rhy ddrud, ddim yn ddibynadwy a ddim yn rhoi digon o sylw - mae angen llwybrau beicio iawn i gysylltu pob cymuned, tref a phentref. Y dyfodol yw beicio gan ddefnyddio e-feiciau ar gyfer trigolion ac ymwelwyr - dylai Ceredigion geisio hyrwyddo ei hun fel sir werdd - byddai hyn yn cefnogi datblygiad a lles fwyaf. Diogelwch ar y prif ffyrdd - A487 am e.e. Byddai’n cael ei wasanaethu fwyaf trwy weithredu 20mya drwy bob tref a phentref o 2023 – heb hyn nid cymunedau mo’r pentrefi yr effeithir arnynt ond aneddiadau noswylio heb roi unrhyw ystyriaeth i iechyd neu les y trigolion.”
“Mae yna argyfwng amgylcheddol, a achosir gan sbwriel dynol a thipio anghyfreithlon. NID oes argyfwng hinsawdd cyffredinol. Mynd i’r afael â’r mater amgylcheddol a gweld sut mae pethau’n gwella’n gyflym.”	“Rhaid i’r cynllun ddweud, mae Ceredigion ar agor i fusnes, mae croeso i bawb. Gadewch i ni symud ymlaen, lleihau tlodi, gwella canlyniadau addysgol (gan gynnwys gwyddoniaeth) a lleihau diweithdra.”
“Rwy’n credu bod angen i’r Cyngor chwilio am y pethau sy’n effeithio ar eu trigolion a gwrando o ddifri ar yr hyn sydd ei angen ar bobl. Bydd gwasanaeth bws a thoiledau sydd wedi gwella'n aruthrol yn dod â phobl oedrannus allan o'u cartrefi, yn eu cael i symud ac yn eu galluogi i aros yn annibynnol am lawer mwy o flynyddoedd nag y mae'r sefyllfa bresennol yn ei ganiatáu. Bydd mynediad at lwybrau cerdded a lonydd beicio yn galluogi pobl i ddefnyddio llai ar eu ceir, yn galluogi plant i symud o gwmpas yn ddiogel ac yn rhoi cyfle i bawb gadw’n heini ac iach ar gyfer y dyfodol.”	“Plîs gwnewch fwy na chynhyrchu strategaeth, daliwch ati i ddangos cynnydd ac yna byddai’r Cyngor yn wynebu llai o feirniadaeth”.

Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Gofynnwyd cwestiynau safonol y Cyngor o ran demograffeg a monitro cydraddoldeb fel rhan o'r arolwg.

16. Beth yw eich grŵp oedran?



17. Beth yw eich rhyw?



18. Ydych chi'r un rhyw a ddynodwyd ar eich geni?



19. Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n eich disgrifio orau?



20. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio statws eich partneriaeth?



21. Sut byddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?



22. Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio'ch grŵp ethnig orau.



23. Beth yw eich dewis iaith?



24. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu'n Gymraeg?



25. Oes gennych gyflwr neu afiechyd corfforol neu feddyliol sy'n effeithio ar eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd?



26. Os gwnaethoch ateb 'Oes' i gwestiwn 25, nodwch pa un sy'n berthnasol i chi?



27. Ydych chi'n gofalu am aelodau teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill neu'n rhoi help neu gefnogaeth iddynt oherwydd: iechyd/anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau'n ymwneud â henaint?



28. . Beth yw eich crefydd?